

2010 Rhif 1808 (Cy. 176)

HADAU, CYMRU

**Rheoliadau Hadau (Diwygiadau
Amrywiol) (Cymru) 2010**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn 2009/74/EC ddyddiedig 26 Mehefin 2009 ("Cyfarwyddeb 2009") o ran Cymru. Mae Cyfarwyddeb 2009 yn diwygio Cyfarwyddebau'r Cyngor 66/401/EEC, 66/402/EEC, 2002/55/EC a 2002/57/EC parthed enwau botanegol planhigion, enwau gwyddonol organeddau eraill ac Atodiadau penodol i Gyfarwyddebau 66/401/EEC, 66/402/EEC, a 2002/57/EC yng ngoleuni datblygiadau ym maes gwybodaeth wyddonol a thechnegol.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Hadau Ŷd (Cymru) 2005, O.S. 2005/3036 (Cy.224) i adlewyrchu newidiadau yn null enwi rhywogaethau penodol, ac i leihau'r safon egino sy'n ofynnol ar gyfer haidd moel.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) 2005, O.S. 2005/1207 (Cy.79) i adlewyrchu newidiadau yn null enwi rhywogaethau penodol, ac i wneud newidiadau canlyniadol sy'n angenrheidiol i'r Rheoliadau hynny.

Mae rheoliad 4 yn diwygio Rheoliadau Hadau Planhigion Olew a Ffibr (Cymru) 2004, O.S. 2004/2881 (Cy.251) i adlewyrchu newidiadau yn null enwi rhywogaethau penodol o fwstard, a thrwy gynyddu uchafswm pwysau lot hadau ar gyfer ffa soia i 30 tunnell.

Mae rheoliad 5 yn diwygio Rheoliadau Hadau Llysiau (Cymru) 2005, O.S. 2005/3035 (Cy.223) i adlewyrchu newidiadau yn null enwi rhywogaethau penodol, ac i leihau'r safon egino sy'n ofynnol ar gyfer india-corn tra melys.

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi ei wneud ar gyfer yr offeryn hwn, gan na fydd yn effeithio o gwbl ar gostau busnes.

2010 Rhif 1808 (Cy. 176)

HADAU, CYMRU

**Rheoliadau Hadau (Diwygiadau
Amrywiol) (Cymru) 2010**

Gwnaed 13 Gorffennaf 2010

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 15 Gorffennaf 2010

Yn dod i rym 9 Awst 2010

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1), (1A), (2), (3), (4) a (5) a 36 o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964 ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(1).

Yn unol ag adran 16(1) o'r Ddeddf honno mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â chynrychiolwyr y buddiannau hynny y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn rhai yr effeithir arnynt.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Hadau (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2010.

(1) 1964 p.14; diwygiwyd adran 16 gan adran 4(1) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 5(1), (2) a (3) o Atodlen 4 iddi (p.68), O.S. 1977/1112, ac adran 2 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1986. *Gweler* adran 31(1) am ddiffiniad o "the Minister". O dan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272), erthygl 2(1) ac Atodlen 2, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i'r Ysgrifennydd Gwladol ac o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2(1) ac Atodlen 1, trosglwyddwyd y swyddogaethau a drosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn trosglwyddo 1978 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 9 Awst 2010.

Diwygio Rheoliadau Hadau Yd (Cymru) 2005

2.—(1) Mae Rheoliadau Hadau Yd (Cymru) 2005(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3—

(a) yn lle'r diffiniad o “oats” rhodder—

“ “oats” means plants of the species *Avena nuda* L. and *Avena sativa* L.”;

(b) yn lle'r diffiniad o “triticale” rhodder—

“ “triticale” means plants of the species *xTriticosecale* Wittm. Ex A. Camus (which are hybrids resulting from the crossing of a species of the genus *Triticum* and a species of the genus *Secale*);”;

(c) yn lle'r diffiniad o “wheat” rhodder—

“ “wheat” means plants of the species *Triticum aestivum* L.”; ac

(ch) yn lle'r diffiniad o “wild oats” rhodder—

“ “wild oats” means plants of the species *Avena fatua* and *Avena sterilis*”.

(3) Yn Atodlen 4—

(a) ym mharagraff 12(2) yn lle “*Agropyron repens*” rhodder “*Elytrigia repens*”;

(b) ym mharagraff 13(1) yn y tabl ar gyfer “(i) barley” rhodder “(i) barley (other than CS, C1 and C2 seed of barley officially classified as being of a naked barley type)”; ac

(c) ym mharagraff 13(1) yn y tabl ar ôl y rhes sy'n cynnwys y cofnod “(b) CS, C1 and C2 seed of oats officially classified as being of a naked oak type” mewnosoder y rhes ganlynol—

(ba) CS, C1 and C2 seed of barley officially classified as being of a naked barley type	75
---	----

(4) Yn Atodlen 8 ym mharagraffau 1(e), 9(l) a 14(b)(ix) ar ôl “oats” mewnosoder “or barley” ac ar ôl “naked oat” mewnosoder “or a naked barley”.

(1) O.S. 2005/3036 (Cy.224), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2009/1356 (Cy.131).

Diwygio Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) 2005

3.—(1) Mae Rheoliadau Hadau Planhigion Porthiant (Cymru) 2005(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3—

- (a) yn lle'r diffiniad o “festulolium”, rhodder—
“ “festulolium” means plants of the species *xFestulolium* Asch. & Graebn. which are hybrids resulting from the crossing of a species of the genus *Festuca* with a species of the genus *Lolium*”;
- (b) yn y diffiniad o “fine grasses” ar ôl “Schedule 2” mewnosoder “and plants of the species *Poaceae (Graminae)*”;
- (c) ar ôl y diffiniad o “fine grasses” mewnosoder y diffiniad canlynol—
“ “fine leaved sheep’s fescue” means plants of the species *Festuca filiformis* Pourr.”;
- (ch) ar ôl y diffiniad o “fodder radish” mewnosoder y diffiniad a ganlyn—
“ “hard fescue” means plants of the species *Festuca trachyphylla* (Hack.) Krajina”;
- (d) yn y diffiniad o “large seeded legumes” ar ôl “Schedule 2” mewnosoder “and plants of the species *Fabaceae (Leguminosae)*”;
- (dd) yn y diffiniad o “meadow fescue” yn lle “Hudson” rhodder “Huds”;
- (e) yn y diffiniad o “small Timothy” yn lle “*bertolonii* DC” rhodder “*nodosum* L”;
- (f) yn y diffiniad o “tall oatgrass” yn lle “J. and C. Presl” rhodder “P. Beauv. Ex J. Presl & C. Presl”.

(3) Ym mharagraff 2 o Atodlen 2 ar ôl “(b) cocksfoot” mewnosoder “(ba) fine leaved sheep’s fescue” a “(bb) hard fescue”.

(4) Yn Atodlen 4—

- (a) ym mharagraff 4 yn y tabl ar ôl y rhes sy'n cynnwys y cofnod (“2. Fodder grasses”) “b. cocksfoot” mewnosoder y rhesi a ganlyn—

(ba) Fine leaved sheep’s fescue	85	Not applicable
(bb) Hard fescue	85	Not applicable

;

(1) O.S. 2005/1207 (Cy.79), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2009/1356 (Cy.131).

- (b) ym mharagraff 5(2) ar ôl y cofnod “festulolium” mewnosoder y cofnodion “(ba) fine leaved sheep’s fescue” a “(bb) hard fescue”;
- (c) ym mharagraff 7 yn lle “*Agropyron repens*” rhodder “*Elytrigia repens*”; a
- (ch) ym mharagraff 9(1) hepgorer “*Avena ludoviciana*”; a
- (d) yn lle paragraff 12(2) rhodder y diffiniad canlynol—
 “12(2) In the case of C1 seed of lupins, the percentage by number of seeds of another colour must not exceed 4.0 % for bitter lupins and 2.0 % for other lupins”.
- (dd) ym mharagraff 14 yn y tabl ar ôl y rhes sy'n cynnwys y cofnod (“2. Fodder grasses”) “b. cocksfoot” mewnosoder y rhesi a ganlyn—

(ba) Fine leaved sheep’s fescue	75	Not applicable
(bb) Hard fescue	75	Not applicable

(5) Yn Atodlen 7 yn y tabl—

- (a) ar ôl y rhes sy'n cynnwys y cofnod (“2. Fodder grasses”) “b. cocksfoot” mewnosoder y rhesi a ganlyn—

(ba) Fine leaved sheep’s fescue	10	100	30
(bb) Hard fescue	10	100	30

; a

- (b) yn lle rhesi 4 (Codlysiâu â hadau mawr) (a), (b), (c), (d), (e), (f), (g) ac (h), rhodder “30” yn lle pob cofnod rhifol yn yr ail golofn.

(6) Yn Atodlen 10 yn y tabl mewnosoder y rhesi a ganlyn yn y manau priodol—

Fine leaved sheep’s fescue	Regulation 3
----------------------------	--------------

Hard fescue	Regulation 3
-------------	--------------

Diwygio Rheoliadau Hadau Planhigion Olew a Ffibr (Cymru) 2004

4.—(1) Mae Rheoliadau Hadau Planhigion Olew a Ffibr (Cymru) 2004(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3—

(a) yn y diffiniad o “black mustard” yn lle “Koch” rhodder “W.D.J. Koch”; a

(b) yn y diffiniad o “brown mustard” yn lle “Czernj.” rhodder “Czern.”.

(3) Yn Atodlen 7 yn y cofnod ar y tabl lle y mae “soya bean” yn ymddangos yn y golofn gyntaf, yn ail golofn y cofnod hwnnw rhodder “30” yn lle “25”.

Diwygio Rheoliadau Hadau Llysiau (Cymru) 2005

5.—(1) Mae Rheoliadau Hadau Llysiau (Cymru) 2005(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 4(1) o Atodlen 4 ar ôl y rhes â'r llythrennau “cc” mewnosoder y rhes ganlynol—

(dd) sweet corn of the supersweet type	80
--	----

(3) Yn Atodlen 7 yn y rhesi lle y mae “2(b) French bean”, “2(c) runner bean” a “23 (pea)” yn ymddangos yn y golofn gyntaf, rhodder “30” yn lle pob cofnod rhifol yn yr ail golofn.

Elin Jones

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o
Weinidogion Cymru

13 Gorffennaf 2010

(1) O.S. 2004/2881 (Cy.251), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2009/1356 (Cy.131).

(2) O.S. 2005/3035 (Cy.223), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan O.S. 2007/2747 (Cy.230).